***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 310

## Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007

**Cael at gofnodion a'r gofrestr gan swyddogion achosion teuluol ar gyfer Cymru a swyddogion y gwasanaeth**

**12.** Rhaid i bob corff gwirfoddol, pan nad yw'n gweithredu fel person awdurdodedig, a phob person sy'n cadw cartref preifat i blant ddarparu i swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru neu i swyddog o'r gwasanaeth —

(a) ffordd o gael at yr hyn sy'n ofynnol ganddo—

(i) mewn cofnodion achos a chofrestri a gynhelir yn unol â'r Rheoliadau hyn; a

(ii) o'r wybodaeth o gofnodion neu gofrestri o'r fath ym mha ddull bynnag y'i cedwir (megis drwy gyfrifiadur);

(b) y fath gopïau ag sy'n ofynnol ganddo o'r cofnodion neu o'r hyn a gofnodwyd yn y cofrestri.